Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 40 Haf 2017



***Pantycelyn yn ysbrydoli***

## *Ysbrydoliaeth Pantycelyn*

Sgwrs dros frecwast ar fore'r 9fed o Chwefror eleni a wnaeth i Linda a finne benderfynu'n sydyn i fynd i Bantycelyn y prynhawn hwnnw. Bu ar fy meddwl ers tro yr hoffwn roi cynnig ar baentio darlun o gartref William Williams. A hithau'n dri chan mlynedd ers ei eni, mae'n debyg mai nawr oedd yr amser i wneud hynny. Roeddwn wedi bod yno sawl tro pan yn iau a gallwn weld darlun clir o'r ffermdy yn fy nghof, dim ond i mi gau fy llygaid yn dynn, ond roeddwn eisiau mwy, ac fe'i cefais.

Wedi gadael Llanymddyfri a throi oddi ar yr A40 i'r ffordd gul sy'n arwain i Bantycelyn, roedd dod i olwg Pentre Tŷ Gwyn yn dal fy llygaid gyda'i gapel a chlwstwr o dai amryliw mewn lliwiau pastel. Fe'm trawodd yn syth bod potensial llun yn y fan honno. Mae hwnnw eto i ddod ryw ddydd.

Wrth gyrraedd clos Pantycelyn roedd yno gwmni ffilmio wedi cyrraedd o'n blaen, ac wrth grwydro draw i gael golwg ar yr olygfa gyfarwydd dyma rhywun yn dod mas o'r tŷ i'n croesawu a phwyso arnom i'w dilyn hi i mewn i'r tŷ. Lodes ifanc oedd hi a'i hwyneb yn hynod o debyg i'r darlun cyfarwydd hwnnw o William Williams – a deall wedi mai hi oedd un o ferched y teulu. Yn y parlwr hen ffasiwn dyma gwrdd â Cecil Williams, y penteulu, a'r chweched genhedlaeth yn llinach William Williams. Roedd y croeso a gawsom yn ddigwestiwn a'r balchder amlwg oedd yn y teulu wrth ddangos y tŷ a'r tebot a'r cloc a llofnod Lloyd George yn y Llyfr Ymwelwyr. Eglurais beth oedd fy mwriad a chwestiwn Cecil yn syth oedd, a fyddwn yn barod i roi copi o'r llun iddo er mwyn ei hongian yn barhaol ym Mhantycelyn. Dyna wireddu breuddwyd unrhyw arlunydd.

Diwrnod arall i'w gofio oedd dychwelyd ar Ebrill 7fed i gyflwyno'r llun gorffenedig i deulu Pantycelyn, a Cynthia Williams, gwraig Cecil a chymeriad a hanner, yn gweini anferth o de i ni. Unwaith eto, roedd y croeso yn eithriadol o gynnes a doedd dim modd gadael ar frys.

Wedi'r profiad ysbrydoledig hwnnw, siom fawr oedd gweld cyn lleied o ddathliadau oedd wedi eu trefnu ar gyfer dathlu a chydnabod cyfraniad enfawr Pantycelyn i fywyd Cymru.



Dyma benderfynu anfon y darlun ar daith genedlaethol hyd ddiwedd y flwyddyn, mewn ymgais i geisio cyrraedd cynulleidfa eang. Mae’r daith yn cynnwys Aberystwyth a Chaerdydd, Siop Leekes yn Cross Hands ynghyd â’r Sioe Fawr yn Llanelwedd a’r Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fôn. Mae’r diddordeb ym Mhantycelyn heddiw yn fawr, a chafodd hynny ei adlewyrchu pan roddais y llun ar Twitter a denu 10,000 o ymweliadau o fewn pedwar diwrnod.

Mae’r darlun yn ymgais i gyfleu delwedd draddodiadol o hen ffermdy Pantycelyn gyda rhai elfennau symbolaidd sydd hefyd yn cynnwys elfen haniaethol, ar flaen y llun. Ymgais yw’r rhain i gyfleu profiadau ysbrydol tanbaid a chymhleth y pererin unig a’r dyn yr ydym oll yn ei adnabod fel ‘Y Pệr Ganiedydd’.

*Wynne Melville Jones*

Gellir gweld y llun ar www.orielwynmel.co.uk

## *Ffarwelio*

Bu diwedd mis Mawrth yn gyfnod arwyddocaol yn hanes Gofalaeth y Garn, am fod ein Gweinidog, y Parch Wyn Rhys Morris, yn ymddeol ar ôl gwasanaethu am ddeng mlynedd. Fore Sul, Mawrth 19, roedd yn gwasanaethu am y tro diwethaf yng nghapel y Garn fel ein Gweinidog. Gosodwyd naws arbennig y cyfarfod yn y dechrau pan ddarllenodd Lois ac Elin yr emyn ‘Dwy law yn erfyn’. Yn ei anerchiad i’r plant, cyn iddyn nhw fynd alllan i’r Ysgol Sul, pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd cofio, a chymaint o rodd yw gallu galw atgofion i gof. Yna, ar ddiwedd ei anerchiad i’r oedolion, cyn ein galw at Fwrdd y Cymun, galwodd y plant yn ôl i ymuno â ni yn y ddefod, profiad a fydd yn aros yn eu cof yn hir.

Wythnos yn ddiweddarach, ar Fawrth 26ain, cynhaliwyd y Cwrdd Gollwng yn y Garn a braf oedd gweld cymaint o aelodau’r capeli a ffrindiau o’r tu allan wedi dod ynghyd. Y Parchedig Llunos Mai Gordon, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, oedd yn llywio’r cyfarfod ac yn gweinyddu Defod Gollwng y Gweinidog.

Cafwyd cyfraniadau teilwng gan gyd-weinidogion ac aelodau o’r gwahanol eglwysi. Offrymwyd gweddi ar ran yr Eglwysi gan y Parchedig Nicholas Bee, a gweddi ar ran y Gweinidog gan y Parchedig Elwyn Pryse.





Yn y Cyfarchiad o'r Eglwysi rhoddodd yr Arglwydd Elystan deyrnged haeddiannol werthfawrogol o'r gŵr oedd 'â thinc Pantycelyn a Dafydd Jones o Gaeo yn ei leferydd'. Yn y cyfarchiad ar ran yr Henaduriaeth sylwodd y Parch Roger Ellis Humphreys ar gadernid ei ddaliadau a'i ddiwydrwydd yn ei waith, ymhlith pehau eraill.

Dan arweiniad Alan Wynne Jones canodd côr o blith aelodau'r ofalaeth emyn gan Mrs Dilys Baker-Jones ar y dôn Gaerwen, a gyfansoddwyd ar gyfer y geiriau gan yr arweinydd. Darllenodd Vernon Jones soned rymus yr oedd wedi ei chyfansoddi ar gyfer yr achlysur.

Cyflwynodd Alan Wynne Jones dysteb i'r Parchedig Wyn Morris a chyflwynodd Heulwen Lewis rodd i'r Parchedig Judith Morris.

Ar ôl yr holl ddiolch a'r dymuniadau da cafwyd ymateb nodweddiadol o ddiymhongar a gostyngedig gan y cyn-weinidog. Yna, gyda datganiad llawn ardddeliad a chadernid o'r emyn 'I Dduw bo'r gogoniant, fe wnaeth bethau mawr' daeth y cyfarfod i ben, ac ymasglodd y gynulleidfa niferus yn y festri lle roedd chwiorydd eglwysi'r ofalaeth wedi paratoi gwledd ar eu cyfer.

Bu'n noson gofiadwy.

*Llinos Dafis*



Y Parch Wyn Morris yn annerch yn ei Gyfarfod Gollwng –
a’r gynulleidfa luosog yng Nghapel y Garn





**Ffarwelio yn Seion**

Fore Sul, 30 Mawrth, gwasanaethodd y Parchedig Wyn Morris am y tro olaf yn Seion, cyn ei ymddeoliad, mewn oedfa gymun. Diolch am yr oedfa gofiadwy ac i John Gwynn Jones am dalu teyrnged ar ran yr Eglwys i'r Bugail.

Yn dilyn yr oedfa cyfarfu'r Ysgol Sul, ond nid aeth neb yn ôl yr arfer i'w dosbarthiadau nac i agor y gwerslyfrau. Fe drefnwyd yn gwbl gyfrinachol ac annisgwyl i'r Parchedig Wyn Morris ein bod yn cynnal cyfarfod i ddiolch iddo am ei ffyddlondeb ar hyd y degawd i'r Ysgol Sul yn Seion. Daeth nifer gref o aelodau presennol a chynt i dalu'r diolch iddo. Dechreuwyd gyda gweddi; traddodwyd teyrnged gan Eirlys Jones, Gwarallt; canodd y côr benillion a gyfansoddwyd ar gyfer yr achlysur gan Elen Lewis, Sarnau Fawr, a chyflwynwyd cerdyn o waith y plant i Wyn gyda chyfarchion di-ri a lluniau arno. Cyflwynwyd rhodd i Wyn ar ran yr Ysgol Sul gan Mrs Megan Lloyd. Bu pawb wedyn yn sgwrsio a mwynhau paned a chacennau a baratowyd gan Olwen a Magdalen.

Dymunwn bob bendith, hapusrwydd ac iechyd i Wyn a Judith i'r dyfodol.

*Ina Tudno Williams*

# CIC

Wedi cyfnod o bedair blynedd, bron, mae Zoe Jones, Swyddog Plant ac Ieuenctid Menter Gobaith, yn troi ei golygon at brofiad newydd. Ym mis Medi bydd Zoe yn dechrau ar gwrs ym maes Datblygiad Plant ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi dorri cwys newydd.

Mae ein diolch a'n gwerthfawrogiad iddi am ei chyfraniad aruthrol i waith y Fenter ac i CIC yma yng Ngofalaeth y Garn. Amlygodd ei dawn arbennig i gyrraedd at y plant a'r ieuenctid yn ei dull cynnes ac unigryw. Ac mae ei sirioldeb bob amser yn adlewyrchu ei ffydd ddiysgog a'i hymroddiad i waith Achos Crist.



Yn ystod ei chyfnod mae wedi cynnig cyfleoedd arbennig i'n plant a'n hieuenctid yn y clybiau, ysgolion Sul, Gŵyl yr ysgolion Sul a gweithgareddau arbennig fel Agor y Llyfr, Seren yn y Stabl, Profiad y Pasg, canu carolau yng nghartrefi'r henoed ac yn blaen. Bu iddi hithau gael profiad arbennig o weithio gydag ieuenctid yn Uganda yn 2014 a sylweddoli, serch eu difreintedd, fod yr ieuenctid mor barod i rannu a rhoi o ganol eu prinder. Cofiwn i Zoe arwain sawl gweithgaredd dyngarol gydag aelodau CIC. Meddai Zoe am glwb CIC: 'Mae'n anhygoel i weld y merched yn dod i'r clwb wythnos ar ôl wythnom ac erbyn hyn dwi'n teimlo bod y merched yn wir yn cefnogi'r gwaith, ac mae'n fraint fawr creu perthynas gyda nhw.'

Eleni eto fe gynhelir Sul y Fenter ar 24 Medi drwy gynnal oedfa unedig yn y Morfa a cheir cyfle i "ffarwelio" â Zoe'n ffurfiol bryd hynny. Ceir rhagor o fanylion yn y dyfodol agos.

Bydd CIC yn cyfarfod yn ôl yr arfer nos Iau, 6 a 13 Gorffennaf, yn Neuadd Rhydypennau. Cynhelir gweithgaredd olaf Tymor yr Haf ar Draeth y Borth fin nos Iau, 20 Gorffennaf. Os hoffech fwy o fanylion, cysylltwch â Zoe Jones ar 01970 611510/07584411524.

Manteisiwn hefyd ar y cyfle i dalu teyrnged a mynegi ein gwerthfawrogiad i Derfel Reynolds am ei gyfraniad diflino a ffyddlon wrth gefnogi Zoe gyda gweithgareddau CIC. Diolch i ti, Derfel.

Bydd Pwyllgor CIC yn cyfarfod Nos Lun, 17 Gorffennaf, am 7 o'r gloch yn Festri'r Garn.

*Dewi G. Hughes*

# Tudalen y Plant




Yn Eisteddfod yr Urdd eleni, lansiodd Cyhoeddiadau'r Gair ap newydd i blant, sef Arwyr Ancora. Ynddo mae cymeriadau dychmygol byd Ancora – fel Ffabwla, Macsen a'r Urddfeistr – yn cyflwyno'r Arwyr i gymeriadau pwysig yn y Beibl. Bydd y chwaraewyr yn derbyn her i fynd ar gwest i ddod o hyd i stori o'r Beibl – er mwyn mynd â hi yn ôl i'r Goleudwr yn Ancora.

Mae'r ap yn addas ar gyfer plant 7–12 oed ac ar gael am ddim. Gellir chwarae'r gêm ar unrhyw ddyfais sy'n rhedeg meddalwedd iOS neu Android, gan gynnwys iPad, Sony Xperia, Samsung Galazy, Amazon Kindle Fire &c. Rhowch gynnig arno – ac anfonwch atom i ddweud beth ydych chi'n ei hoffi orau am Arwyr Ancora.

Diolch i **Tomos Jones** a **Lois Martha Roberts**
o Ysgol Sul Bow Street am anfon atebion cywir i dasg y rhifyn diwethaf – llongyfarchiadau i chi eich dau.

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 17 Gorffennaf | Pwyllgor CIC yn Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 4 Medi | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth yn Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 6 Medi | Pwyllgor y Tair Gofalaeth yn Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 7 Medi | Pwyllgor Blynyddol CIC yn Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 24 Medi | Sul Menter Gobaith Capel y Morfa, Aberystwyth, am 10 o'r gloch |
| 4 Hydref | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro Capel Llanon am 1.30 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## *Gair o Ddiolch*

Dymuna'r Parchedig Wyn Morris ddiolch yn ddiffuant i bawb a gyfrannodd tuag at y dysteb hael a dderbyniodd ar achlysur ei ymddeoliad o'r Ofalaeth yn ddiweddar. Carai hefyd ddiolch i'r sawl a gyfrannodd i'r Gwasanaeth Gollwng ac am bresenoldeb cynifer o'r aelodau a chyfeillion ar y noson. Mae'n werthfawrogol iawn am bob cyfarchiad ac arwydd o garedigrwydd a dderbyniwyd ganddo, yn llafar ac yn ysgrifenedig, ar yr achlysur hwn a thrwy gydol ei weinidogaeth. Hoffai estyn ei ddymuniadau gorau i'r Ofalaeth ar gyfer y dyfodol.

# Gorffennaf

*Blaenor y Mis: Eddie T. Jenkins / Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Alan Wynne Jones*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**2** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. J. E. Wynne Davies
Cynhelir oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**9** Taith i'r Ysgwrn, Trawsfynydd – cartref Hedd Wyn
Cychwyn o'r Garn am 9.30 o'r gloch
Enwau i Alan Wynne Jones, os gwelwch yn dda.

11 Pwyllgor Eglwys y Garn am 7 o'r gloch

**16** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Parch. R. W. Jones
Bydd aelodau Eglwys ac Ysgol Sul Horeb, Dyffryn Ardudwy,
yn ymuno â ni yn y gwasanaeth

17 Pwyllgor CIC yn Festri'r Garn am 7 o'r glloch

**23** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Adrian P. Williams
Cymun yn oedfa'r bore

**30** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
Lansio Apêl Corwynt Cariad yn oedfa'r bore

## Capel y Garn

**Gofal Bugeiliol**

Os bydd aelod o'r teulu neu gymydog yn wael yn yr ysbyty neu wedi cael profedigaeth, a fyddech cystal â rhoi gwybod i Alan Wynne Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys: alan.jones212@btinternet; ffôn: 01970 828163) neu un o'r swyddogion, os gwelwch yn dda.

**Llongyfarchiadau calonnog a phob dymuniad da:**

i Mrs Dilys Baker-Jones ar gyflawni 50 mlynedd fel blaenor yn yr Henaduriaeth. Fe'I hordeiniwyd, yn ferch ifanc, yng Nghapel Clos y Graig, Llandysul, a gwasanaethodd fel blaenor yng Nghapel Penrhiw, Llanrhystud, am bron 40 mlynedd. Ers rhai blynyddoedd bellach, mae'n eithriadol o ffyddlon i'r oedfaon yn y Garn;

i Mrs Delyth Jones ar ei hymddeoliad ddiwedd Mai ar ôl 28 mlynedd o wasanaeth clodwiw i UCAC;

i Carwyn Lloyd Jones ar ei lwyddiant yn ennill y gystadleuaeth 'Caban yn y Gwyllt' gyda'I gynllun hynod 'Llygad y Ddraig'. Gwych iawn!

**Y Rhestr Flodau**

| **Gorffennaf** | **Awst** | **Medi** |
|---|---|---|
| **2** Noddfa | **6** Noddfa | **3** Janet Roberts |
| **9** Taith i'r Ysgwrn | **13** Gaerwen | **10** |
| **16** Gwenda James | **20** Noddfa | **17** Marian B Hughes |
| **23** | **27** | **24** Sul Menter Gobaith |
| **30** | | |

Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer rhai o'r Suliau gwag, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

# Awst

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Elystan-Morgan / Erddyn James*

**6** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

**13** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch
dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd

**20** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

**27** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch
dan arweiniad Miss Beti Griffiths

Dydd Sul, 24 Mai, cynhaliwyd Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont. Cafwyd cyfarfod i'r plant yn y bore, gyda phlant y gwahanol ysgolion Sul yn cyflwyno'r emynau. Mrs Llio James, y Garn, oedd yn arwain y canu bywiog, a chafwyd sgwrs ddifyr i'r plant gan Mrs Helen Jones, Tal-y-bont.

Arweinydd cymanfa'r oedolion yn yr hwyr oedd Mr Alwyn Evans, Machynlleth, ac yr oedd cynulleidfa niferus wedi dod ynghyd i ymuno yn y canu mawl.



Y Parch Richard Lewis (Cadeirydd y Pwyllgor) gyda Mrs Llio James a Mrs Helen Jones

## Croeso

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at fis Medi i groesawu ein Bugail newydd, sef y Parchedig Ddr Watcyn James. Dyma gychwyn pennod newydd, gyffrous yn ein hanes fel Gofalaeth a chyfnod newydd yn ei fywyd yntau hefyd. Gweddïwn am fendith Duw ar ei Weinidogaeth a brwdfrydedd newydd yn ein plith i gydweithio ag ef.

Daw Watcyn a'i wraig, Lowri, atom o Dŷ-croes, Rhydaman, lle maent wedi ymgartrefu gyda'u teulu ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Ein braint fydd ymroi i'w helpu i ymsefydlu yn ein plith, nid yn unig fel eglwysi'r Ofalaeth, ond hefyd fel ardaloedd cyfain yma yng ngogledd Ceredigion.

*Ina Tudno Williams*

(Cadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol)

Llongyfarchiadau calonnog a'n dymuniadau gorau:

i'r Parch. R. W. Jones, Wrecsam, ar ddathlu 50 mlynedd yn y Weindogaeth;

i'r Parch. Wyn Rhys Morris ar gael ei ethol yn Ysgrifennydd Cymdeithasfa'r De.

**Medi**

*Blaenor y Mis: Dewi G. Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Gruffydd Aled Williams / Marian B. Hughes*

**3** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch John Gwilym Jones

4 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 2 o'r gloch

Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth am 7 o'r gloch

6 Pwyllgor y Tair Gofalaeth
yn Festri'r Garn am 7 o'r gloch

7 Pwyllgor Blynyddol CIC am 7 o'r gloch

**10** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr Goronwy Prys Owen

15 Swper Cynhaeaf yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre,
am 6 o'r gloch, tuag at Apêl Corwynt Cariad

**17** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr R. Alun Evans
Oedfa gymun yn y bore

**24** Sul Menter Gobaith
Gwasanaeth yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Eifion Roberts

**DS** *Gallai'r trefniadau ar gyfer oedfaon mis Medi newid pan fydd Suliau'r Bugail newydd wedi'u cadarnhau*

## *Sul Cymorth Cristnogol*



Bore Sul, 21 Mai, cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel y Garn i gloi Wythnos Cymorth Cristnogol, dan arweiniad y Parch. John Roberts, Aberystwyth. Yn ei neges cyfeiriodd at nifer o enghreifftiau o wahanol fathau o ffoaduriaid yn y Beibl, yn ogystal â'n dyletswydd ninnau i gynorthwyo pobl sy'n eu cael eu hunain mewn sefyllfaoedd tebyg heddiw.

Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd Cinio Bara a Chaws yn y festri, wedi'i baratoi gan y Chwiorydd. Braf oedd cael cwmni a chefnogaeth cyfeillion Capel Noddfa yn y gwasanaeth a'r cinio, a diolch i'r Chwiorydd am eu parodrwydd i baratoi'r cinio fel arfer.

Gwnaed casgliad tuag at Gymorth Cristnogol, a chasglwyd £549.

Ein braint eleni yw cefnogi apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gynorthwyo trigolion Ynysoedd y Pilipinas (Philippines).

CORWYNT CARIAD

Mae'r ynysoedd hyn yn gyfarwydd iawn â chorwyntoedd natur, sy'n achosi difrod a dinistr.

Ond wrth annerch Sasiwn y De, yng Nghapel Salem, Treganna, Caerdydd, ym mis Mai diolchodd Lot Felizco, Rheolwr Cymorth Cristnogol yn y Pilipinas, yn deimladwy iawn i aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru am sicrhau y bydd corwynt o fath gwahanol yn cyrraedd trigolion y Pilipinas – corwynt o gariad. Dywedodd y byddai arian yr apêl yn helpu'r bobl hyn i ymateb i drychinebau a thyfu'n gryfach fel cymunedau.

Nod yr apêl yw fod pob aelod unigol yn anelu at gyfrannu **£14+** tuag at y gwaith – llai na phris paned o goffi bob wythnos i ni, ond swm a fydd yn eithriadol o werthfawr i drigolion y Pilipinas. Cofiwch y gallwch ychwanegu at werth eich cyfraniad trwy lenwi Datganiad Cymorth Rhodd.

**Cyfrannwch yn hael – bydd eich arian yn gwneud gwahaniaeth.**

### Gweddi'r Apêl

O Dduw ein Tad,

Diolchwn i Ti am y cariad ymarferol
a ffrwydrodd o'th galon ym mherson
Iesu.
Ar y groes, ceraist ti ni mewn
gweithred a gwirionedd. Dyro i ninnau
allu caru cymunedau tlawd y Pilipinas
yn yr un modd.

Rho i ni lygaid agored i weld y tlawd,
yn lle eu hanwybyddu.
Rho i ni ddwylo agored
i ymestyn tuag at y tlawd,
yn lle eu cau yn eu herbyn.
Rho i ni leferydd
agored i eiriol dros y tlawd
gyda'r grymus,
yn lle mudandod ac ofn.

Clyma dy eglwys yng Nghymru a
chymunedau penderfynol y Pilipinas
gyda rhwymyn dy gariad ymarferol Di.

Yn enw Iesu dy fab.
Amen.

## William Williams, Pantycelyn – 'Pererin wyf'

Dros y blynyddoedd rwyf wedi clywed a drachtio geiriau godidog ein hemynau disglair ers yn blentyn, drwy fy nhad-cu, a oedd yn flaenor yng Nghapel Blaenpennal, a Nhad, oedd yn ganwr o fri.

Felly, rhaid oedd ymateb i'r cais i ddewis un o'm hoff emynau o waith y Perganiedydd, William Williams, Pantycelyn. Wedi dethol yn ofalus, deuthum i'r penderfyniad clir mai emyn rhif 682 *Caneuon Ffydd* yw'r dewis:

> Pererin wyf mewn anial dir,
> yn crwydro yma a thraw,
> ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
> fod tŷ fy Nhad gerllaw.

Er mai hwn yw un o emynau enwocaf Pantycelyn, ac iddo weld golau dydd yn 1772, tarodd yr emyn hwn fi oherwydd y geiriau godidog, a hefyd, er nad wyf yn ganwr, rwy'n hoff iawn o glywed y gantores fyd-enwog Iris Williams ac, wrth gwrs, Olwen y wraig yn ei ganu. Cyrhaeddodd y gân a'r gantores Iris Williams frig y siartiau Cymreig, ond roedd y dôn yn boblogaidd hefyd yn y siartiau Saesneg. Mae tôn arbennig yn bwysig i bob emyn Cymraeg – y ddwy elfen yn asio i'w gilydd yn berffaith.

Pantycelyn, a anwyd yn 1717 ac a fu farw yn 1791, yw un o'r enwocaf o blith emynwyr Cymru, wrth gwrs, a diddorol iddo gael tröedigaeth wrth wrando ar Howell Harris ger Talgarth:

> Dyma'r bore, fyth mi gofiaf,
> Clywais innau lais y nef.

Daeth yn ei dro yn un o brif arweinwyr y Methodistiaid a theithiodd Williams gannoedd o filltiroedd ar gefn ei geffyl am flynyddoedd lawer yn lledaenu'r efengyl. Diolch am y ffermwr a'r masnachwr te, yr emynydd a'r bardd.

Diddorol fod geiriau megis bryniau, pererin, hiraeth, anialwch, stormydd a chrwydro yn britho'i emynau sy'n cael eu canu mor egnïol mewn cyngherddau, yng nghapeli ac eisteddfodau ein gwlad. Ie, heb os, 'Williams biau'r gân'.

## Newyddion Seion

Llongyfarchiadau i John Gwynn Jones, Awelon, ar ei lwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Calan Mai y Morlan yn ennill y Tlws Llenyddiaeth ar y testun 'Atgof' a dod yn ail a thrydydd ar yr erthyglau i bapur bro.



Gallaf innau gytuno â'r ffarmwr a'r emynydd o Bantycelyn:

> Mi wyraf weithiau ar y dde
> ac ar yr aswy law

a diolch am arweiniad yr emyn godidog hwn ar daith bywyd – ie,

> Pererin wyf mewn anial dir,
> yn crwydro yma a thraw.

*John Gwynn Jones*

Diddorol nodi bod Miss Beti Griffiths yn ei cholofn fisol yn *Y Ddolen* yn sgrifennu am Bantycelyn ac wedi dewis yr un emyn â John fel ei hoff emyn hithau. 'Credaf fod taith bywyd yn ei holl gyflawnder wedi ei chroniclo yn yr emyn hwn – Pererin wyf,' medd Beti.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth



Croesawyd Ruth Jên, Tal-y-bont, i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 14 Mawrth, yn festri capel Rehoboth, a theitl ei sgwrs oedd 'Menywod Cymreig'. Wrth ddangos inni sut mae'n mynd ati i greu'r lluniau o ferched Cymreig eglurodd Ruth sut y cafodd y syniad, a hynny ar ôl iddi gael gwahoddiad i ddangos ei gwaith ochr yn ochr â dwy o artistiaid eraill yn Oriel y Bont, Aberystwyth, yn 2010. Gwnaeth ymchwil i sut roedd menywod Cymreig wedi cael eu portreadu ar hyd y canrifoedd, a sylwodd fel roedd gwragedd yn eu gwisg Gymreig yn cael eu portreadu ar gardiau post yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth eu gorchwylion bob dydd, un ai yn gwau, yn gwehyddu neu'n yfed te. Penderfynodd Ruth ychwanegu ychydig o hiwmor i'w darluniau o fenywod drwy gynnwys llinellau o lên gwerin a thraddodiadau Cymreig i gyd-fynd â'r sefyllfa yn y darlun. Erbyn hyn mae'r lluniau'n boblogaidd iawn ac yn cael eu gwerthu i bob rhan o'r byd. Roedd pawb wedi mwynhau ei chyflwyniad yn fawr iawn, a diolchwyd i Ann Jenkins ac Ann Jones am baratoi'r te a chacennau ar y diwedd.

Daeth y tymor i ben am eleni ar brynhawn Mawrth, 11 Ebrill, pan aeth yr aelodau i fwynhau te prynhawn yng Nghrefftau Pennau, Rhydypennau. Ar ôl mwynhau'r te blasus cafodd pawb gyfle i weld y crefftau amrywiol sydd ar werth yn y siop.

*Carys Briddon*

## *Cofio Eirlys Myfanwy Owen*

Gyda marwolaeth Eirlys Myfanwy Owen ym mis Mai eleni collodd y Garn aelod ffyddlon. Fe'i ganwyd ym mis Tachwedd 1921, yn ferch i Richard ac Elisabeth Hughes, Morawel, a chael ei hail enw ar ôl y nyrs fu'n gweini adeg yr esgor, Hanna Myfanwy Rees, Bronceiro.

Roedd cerddoriaeth yn bwysig iddi. Bu'n cael gwersi piano gyda J. T. Rees a bu'n chwarae yn yr ysgol Sul, yn Bow-Street ac yn y Garn, "ond nid yn yr oedfa". Hi enillodd y wobr gyntaf am ganu unawd dan saith – "Ble'r ei di, yr hen dderyn bach?" – yn Eisteddfod Genedlaethol gyntaf yr Urdd yng Nghorwen. Olwen Morgan oedd ei hathrawes ac Inigo Jones, y Dole, oedd yn cyfeilio. Y canu oedd yn aros yn ei chof wrth rannu atgofion am hela calennig hefyd. "Byddai un grŵp yn canu fan hyn, ac un arall fan draw, roedd e'n hyfryd!" meddai.

Roedd ei chariad at bentref Bow-Street yn gadarn. Byddai gweld pobl yn ysgrifennu Bow-Street Aberystwyth, "fel petai'r pentref yn ddim mwy nag un o strydoedd y dref" yn dân ar ei chroen! Ar ôl gadael ysgol a mynd i drin gwallt – ei hunig uchelgais erioed a'i rheswm dros wrthod mynd i Ardwyn ar ôl pasio'r *scholarship* – teithiai ar y bws o leiaf ddwywaith bob dydd yng nghwmni Dewi Morgan [tad Elystan], gan wrando'n astud ar ei hanesion.

Ar ôl ei *de-mob* o'r Llu Awyr, priododd ag Ifor Owen ac ymgartrefu yn ôl yn Bow-Street, lle ganwyd eu merch, Sandra.

Fu dim pall ar ei gweithgarwch gwirfoddol: yn gapten tîm yn Eisteddfod y Tylwythau, yn glerc y Cyngor Cymuned, yn weithgar gyda Sefydliad y Merched, ar bwyllgor trefnu'r carnifal blynyddol a pharti'r Goeden Nadolig yn y Neuadd, yn un o aelodau cyntaf Ffrindiau Cartref Tregerddan ac yn weithgar dros y gymdeithas honno tan yn ddiweddar, yn trefnu'r bore coffi wythnosol a'r te misol yn Afallen Deg dan nawdd Cymdeithas yr Henoed, yn mynd â'r troli o gwmpas cleifion Ysbyty Bronglais dan nawdd y WRVS, ac yn dosbarthu Pryd ar Glud o Gartref Tregerddan, ymhlith pethau eraill.

Trist fu ei gweld yn gorfod ildio i wendid ei chorff yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond pery'r atgof am y ddau lygad glas a'r wên gynnes, werthfawrogol, weddill dyddiau ei chydnabod.

*Llinos Dafis*

## *Ai Duw yw'r broblem—a beth yw'r ateb?*

*Duw yw'r Broblem* yw teitl llyfr gan Cynog Dafis ac Aled Jones Williams, a haedda gael mwy o sylw nag a gafodd. Llyfr sydd ag ôl darllen, ymchwil a myfyrdod gonest arno. Mae Cynog yn fab y mans, a drodd yn Undodwr ac sydd bellach yn mynychu Eglwys Llanbadarn yn gyson, yn ogystal ag ambell ymweliad gyda'i briod â Chapel y Garn.


Y casgliad a ddaw iddo, serch hynny, yw nad oes Duw. Mater o 'ddyhead dychmygus' yw fod dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw, medd Cynog. Ond rhaid, serch hynny, 'ddal yn dynn wrtho fel un o sylfeini ein ffydd'. Ffydd ym mheth? Hyd y gwelaf, nid oes gan Cynog broblem gyda dysgeidiaeth Crist. 'Mae geiriau Crist,' meddai mewn dogfen arall, 'yn llefaru wrthon ni heddiw, fel mae wedi gwneud ar hyd y canrifoedd' – yn y gwynfydau.

Duw yw'r broblem, felly. Ond lle mae problem, dylid o leiaf geisio ateb. Dengys llyfr Cynog yn ddigon clir nad yw'r ateb i'w gael wrth feddwl yn rhesymol, na synfyfyrio, nac ymchwil nac astudiaeth o weithiau diwinyddion ac athronwyr. Nid ganddynt hwy y mae'r ateb.

Eto i gyd, y mae rhyw ychydig dethol ar hyd yr oesoedd wedi dod o hyd i ateb. A'r ateb yw Crist. Nid gwybod hanes Crist na dilyn ei esiampl hyd yn oed. Nid credu'r hanesion amdano ond ei 'dderbyn'. Mae 'derbyn Crist' wedi – ac yn – newid bywydau. Cymerwch enghreifftiau fel yr Apostol Paul, Ann Griffiths a Williams Pantycelyn. Ac mae'r wyrth hon yn parhau i ddigwydd yn ein hoes ni. Cawsom dystiolaeth o hyn yn llythyr diffuant y diweddar, annwyl John Leeding a gyhoeddwyd yn 'Gair o'r Garn' rai misoedd yn ôl.

Ar y cyfan nid ydym ni, grefyddwyr y prif enwadau, yn rhyw or-hoff o 'Efengylwyr' a phobl sydd yn honni iddynt gael eu 'hachub'. Ond efallai y dylen ni fod yn ddigon gwylaidd i gydnabod – hwyrach fod gan y bobl hyn rywbeth nad oes gennym ni, rhywbeth nad yw'n dibynnu ar feddwl dwfn ac *intellect* mawr. Dim ond y gwyleidd-dra i dderbyn 'Iesu a'i farwol glwy' / yn Frawd a Phriod i mi mwy' ac sydd o'r herwydd yn gallu canu gydag argyhoeddiad 'Daeth Iesu i'm calon i fyw'.

Felly, hanner ei dasg mae Cynog wedi ei chyflawni hyd yma. Anogaf ef yn awr i symud ymlaen i edrych ar y dystiolaeth o beth mae ‘derbyn Iesu’ wedi ei wneud i fywydau – cymeriadau hanesyddol fel yr Apostol Paul, Ann Griffiths a William Williams, sydd wedi gadael ar eu hôl beth wmbreth o dystiolaeth ysgrifenedig.




Wedyn, cynnal cyfweliadau gyda Chymry byw sydd yn tystio’u bod wedi cael ‘tröedigaeth’. Sut beth oedd eu bywyd cyn iddynt gael tröedigaeth? Sut brofiad oedd y dröedigaeth? Ac yn olaf, sut mae eu tröedigaeth wedi effeithio arnyn nhw – ac ar y rhai o’u cwmpas

Dyna ddeunydd cyfrol swmpus, gredaf i, ac un fwy gobeithiol a phositif ei naws na’r gyntaf. Awgrymaf deitl byr a bachog iddi – ‘Crist yw’r ateb’.

*Eddie T. Jenkins*



Rhai o aelodau Cymdeithas Chwiorydd y Garn yn mwynhau cinio yn y Wildfowler, Tre’r-ddôl, i gloi eu tymor o weithgareddau

## Cyfarfod Cenhadol y Chwiorydd—Dosbarth Gogledd Ceredigion




Ar Ebrill 1af eleni cafodd Cymdeithas Chwiorydd Capel y Garn y fraint o groesawu'r cyfarfod hwn. Agorwyd yr oedfa gan Miss Eirlys Morgan, Llywydd Chwiorydd y Dosbarth, cyn i Chwiorydd y Garn arwain y defosiwn dechreuol.

Yn dilyn hynny cawsom gyflwyniad gyda sleidiau gan athrawes ifanc o Lanafan, Miss Catrin Hughes, a rannodd â ni ei hatgofion o'r cyfnod a dreuliodd yn Lesotho, dan nawdd Dolen Cymru Lesotho, yn dysgu plant a hyfforddi athrawon. Boed i'r profiad a gafodd Catrin wrth estyn cymorth i bobl llai eu breintiau fod yn fendith iddi gydol ei gyrfa.

Cyn i'r Llywydd ddirwyn y cyfarfod i ben gydag emyn a gweddi clywsom am wahanol brosiectau'r gymdeithas gan Mrs Ina Tudno Williams, a chael cyfle i brynu rhai o'r matiau lliwgar o'r Pilipinas. Daeth y prynhawn difyr i ben dros gwpaneidi o de a chyfle i gydgymdeithasu.

**_Swyddogion yr Ofalaeth_**
*Cadeirydd*: Robert Williams, Rehoboth
*Is-gadeirydd*: Janet Jones, Nasareth
*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **10 Medi**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewianerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com